## Nadolig Llawen!

Cawsom amser gwych yn dathlu'r Nadolig yn Ysgol Garth Olwg eleni gyda llu o weithgareddau amrywiol gan gynnwys teithiau i'r theatrau, siopau, sinema, cyngherddau a Gŵyl y Gaeaf.





### Diwrnod Siwmperi Nadolig

Diolch i'r disgyblion am ymuno yn yr hwyl yn gwisgo eu siwmperi Nadolig a chyfrannu at elusennau'r ysgol. Roedd y siwmperi'n wych gan bawb eleni eto.




### Taith Sioe '& Juiliet' Llundain

Saith o'r gloch y bore a gwasgodd criw eiddgar blwyddyn saith, wyth a naw ar fws Edwards yn llawn cyffro ar gyfer taith yr Adran Gerddoriaeth yr ysgol i Lundain i weld y sioe gerddorol, '& Juliet'. Gwibiodd yr oriau heibio ac erbyn hanner awr wedi deg gwelsom nendyrau Llundain, Big Ben a'r Tŷ Cyffredin yn codi i'r entrychion … roeddwn wedi cyrraedd prifddinas Lloegr.
Yn gyntaf, aethom i 'Winter Wnderland' yn Hyde Park. Cyfle i grwydro stondinau, bwyta ein bwyd, blasu melysion Nadoligaidd o bedwar ban y byd, ac amrywiaeth o reidiau'r ffair.





Nesaf, uchafbwynt y dydd. Y sioe! Roedd Theatr Shaftesbury yn lle crand iawn llawn canhwyllyr crisial a lluniau diri. Cawson ein tywys i ein seddi, cododd y llenni a dechreuodd y sioe (spoiler!) bu farw Romeo … ond ni fu farw Juliet. Datblygodd y plot yn seiliedig ar y dewisiadau fydd hi am wneud nawr - Chwilio am gariad arall? Teithio'r byd? Roedd y sioe yn un doniol, hwylus a llawn caneuon llwyddiannus. Sioe gwerth ei gweld. Gyda'r gerddoriaeth yn fyw yn ein meddyliau gwargrymon i'n seddi nôl ar y bws a gadawon ni Lundain am hanner awr wedi pump. Llusgodd y bws, a'r amser, ar hyd y draffordd - ond dal i wenu a chwerthin oeddwn wrth drafod hanes Juliet. Sioe werth i weld a thaith fythgofiadwy.

### Taith Cymreictod Ninja Warrior

Cafwyd hwyl a sbri yn Ninja Warrior Uk yng Nghaerdydd ar gyfer taith gwobrwyo Cymreictod Blynyddoedd 9-11. Roedd pawb yn chwysu wrth neidio ar y rhwystrau amrywiol a bownsio trwy'r cwrs. Taith wych i ddathlu'r disgyblion sydd yn dangos balchder tuag at ein hiaith.







**Taith Blwyddyn 12 a 13**

Cafwyd amser gwych yn Winter Wonderland ac yn siopa am anrhegion Nadolig yng Nghaerdydd gan ddisgyblion yr Ysgol Hŷn i ymlacio ar ddiwedd y tymor.

**Taith Blwyddyn 7 ac 8**

Ar ddydd Mawrth wythnos olaf y tymor aeth Blwyddyn 7 ac 8 ar deithiau i ddathlu'r Nadolig ar ddiwedd tymor prysur dros ben. Mwynhaodd y disgyblion wylio ffilm Nadolig ac yna aeth Blwyddyn 7 i Gaerdydd ac aeth Blwyddyn 8 i fowlio deg. Roedd hi'n braf iawn treulio amser yng nghwmni ffrindiau cyn y gwyliau a chael cyfle i gymdeithasu gyda'n gilydd.














**Taith Blwyddyn 5 a 6**

Ar Ragfyr y 9fed, aeth dysgwyr o flynyddoedd 5 a 6 ar wibdaith hynod o arbennig i Ŵyl y Gaeaf yng nghanol dinas Caerdydd. Bu'r criw yn mwynhau gydol y dydd yn sglefrio ar y rhew yng ngerddi Castell Caerdydd, yn ymweld ag arddangosfa Alys, yn prynu danteithion a bwyd blasus, a chael modd i fyw ar y reidiau amrywiol yn y ffair. Roedd gwên ar wyneb pawb - yn enwedig wrth weld campau gwych Mr Welsby ar y rhew!







**Taith Blwyddyn 9,10,11**

Cafodd ddisgyblion Blwyddyn 9,10 ac 11 hwyl ar eu teithiau i McArthur Glen, Caerdydd ac i'r sinema yn Nantgarw ar ddiwedd y tymor. Braf oedd gadael yr ysgol i fynd ar daith ar ôl blwyddyn brysur iawn.








**Noson Carol a Chân**

Ar ôl y siom o orfod gohirio'r Noson Carol a Chân, penderfynwyd recordio'r gyngerdd. Mae modd gwylio'r gyngerdd yn rhithiol wrth glicio yma.






***Institut Français***

O achos COVID, nid yw'r adran Ieithoedd Rhyngwladol wedi llwyddo cael taith i Ffrainc ers peth amser. Ond er mwyn cael blas ar ddiwylliant Ffrengig aeth dosbarthiadau TGAU a Lefel A Ffrangeg ar daith i'r *Institut Français* ar ddydd Iau'r 16eg o Ragfyr. Ar ôl gadael yr ysgol yn fuan iawn, teithion ni lawr i Lundain gyda brecwast yn y gwasanaethau ar y ffordd. Cyrhaeddon ni'r *Institut Français* erbyn 10:30 am ddiwrnod o weithgareddau. Yn gyntaf, treulion ni amser yn y llyfrgell yn edrych am atebion i gwestiynau. Pwrpas y dasg oedd edrych ar ddylanwad mewnfudwyr a mewnfudo ar ddiwylliant Ffrainc. Roedd pawb yn cytuno bod effaith y dylanwad yn un cadarnhaol dros ben. Ar ôl cinio, cawsom wylio ffilm o'r enw Fahim. Mae'r ffilm yn sôn am fachgen ifanc o Fangladesh sy'n ffoi i Ffrainc gyda'i dad er mwyn dianc o sefyllfa beryglus. Yn Ffrainc, mae'n llwyddo i fireinio'i sgiliau gwyddbwyll a chymryd rhan mewn cystadlaethau. Mae hyn i gyd yn digwydd tra bod ei dad yn brwydro am yr hawl i aros yn Ffrainc. Roedd y ffilm yn hynod drawiadol ac emosiynol gydag ambell ddeigryn yn y gynulleidfa. Ar ddiwedd y dydd, cawsom gyfle i fynd i *Winter Wonderland* yn *Hyde Park*. Roedd yn gyfle gwych i ymlacio ychydig ar ôl tymor hir o waith caled. Braf oedd cael mwynhau'r atyniadau a bwyta melysion megis *churros* a wafflau. Cawsom ddydd i'r brenin a byddwn yn sicr yn ail ymweld â'r *Institut Français* yn y dyfodol. *Joyeux Noël* gan yr adran Ieithoedd Rhyngwladol.





### Canu carolau

Ar brynhawn dydd Llun, Rhagfyr 13eg, aeth criw o ddisgyblion o flynyddoedd 7-13 ac athrawon draw i rannu ychydig o hwyl yr ŵyl drwy ganu carolau y tu allan i Gartref Gofal Garth Olwg.  Roedd y preswylwyr a'r disgyblion wedi mwynhau yn fawr!




### Ymweliad â Siôn Corn

Cafodd ddosbarthiadau Meithrin a'r Derbyn brofiad arbennig iawn yr wythnos hon yn cwrdd â Siôn Corn a'i gorachod yng Nghanolfan arddio Woodland Walk yn Efail Isaf. Roedd pob plentyn wedi gwirioni a hyd yn oed yn fwy cyffrous erbyn hyn am y Nadolig ar ôl bod yno!




### Amgueddfeydd- Amser maith yn ôl

Gan ein bod yn dod i ddiwedd ein thema 'Amser maith yn ôl' y tymor hwn, braf oedd cael croesawu nifer o rieni'r disgyblion i weld arddangosfeydd ar ffurf amgueddfa o waith penigamp y plant. Bu blynyddoedd 3 a 4 yn arddangos casgliad o waith am hanesion yr Ail Ryfel Byd.




### Capel Salem

Yn ddiweddar, cerddodd ddosbarthiadau blynyddoedd 1 a 2 i lawr i gapel Salem yn Nhonteg ar gyfer sesiwn ddifyr o weithgareddau crefftus Nadoligaidd. Mwynhaodd y plant y profiad yn fawr iawn. Diolch yn fawr.




### Sioe Nadolig rhithiol a charolau ar iard yr ysgol

Dros yr wythnosau diwethaf bu'r disgyblion yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer ein sioe rithiol Nadolig.
Yn ogystal cafodd y rhieni bleser eu gweld yn canu carolau tu allan i'w dosbarthiadau un bore sych wythnos diwethaf. Da iawn chi blantos roedd pob un ohonoch yn wych!



## Banc Bwyd

Diolch i staff a disgyblion yr ysgol am gyfrannu tuag at hamperi Nadolig y Banc Bwyd lleol. Roedd miloedd o eitemau wedi cael eu rhoi a byddant yn cael eu dosbarthu i deuluoedd yr ardal gan y Banc Bwyd.







## Sioe Teulu'r Addams



Ar y deunawfed o Dachwedd, cefais y pleser o wylio sioe gerdd arswydus, ryfedd a disglair sef Teulu'r Addams. Dechreuodd y sioe gyda'r gân agoriadol ble cawsom ni ein cyflwyno i deulu'r Addams yn ogystal â'i holl hynafiaid. Roedd y gân yma yn fewnwelediad eglur i'r awyrgylch angheuol trwy gydol y sioe, gyda jociau cawslyd am farwolaeth a pherygl - mae wir yn sioe i bob oed. Yn annisgwyl, cariad odd prif thema'r sioe trwy fywyd pob cymeriad a oedd yn dangos agweddau gwahanol i fywydau anghonfensiynol teulu'r Addams. Er nad oedd y plot yn un i ganmol roedd y cast trawiadol yn gwneud y sioe  werth ei gweld.



Mae'r cast gwych yn cynnwys Joanne Cliffton o Strictly Come Dancin fel Mortica Addams ac ail ymddangosodd Cameron Blakely yn ei rôl fel Gomez Addams. Roedd y rhyngweithio rhwng y ddau yn un o angerdd, cariad ac agosatrwydd ac mae'n anghredadwy nad ydyn nhw yn gwpwl go iawn. Agwedd oedd yn ychwanegu hiwmor parhaol odd rol Lurch (Dickon Gough), gyda'r cerdded araf a'r grwgnach doniol roedd y rôl yma yn un syml ond hynod o effeithiol. Ond y peth mwyaf trawiadol o'r perfformiad oedd llais anghredadwy Kingsley Morton fel Wednesday, yn enwedig yn y gân 'One normal night'. Roedd pob nodyn yn berffaith gan adael pawb yn y gynulleidfa yn ddileferydd. Felly os ydych chi'n ffan o sioeau cerdd ysgafn, llawn hiwmor a lleisiau bythgofiadwy dyma'r sioe i chi. Gan Bethan Lloyd, Blwyddyn 13.

## Dysgu Cymraeg ail iaith yn Ysgol Aberdâr




Mae criw o ddisgyblion Blwyddyn 10 wedi bod yn brysur yn cynnal gweithgareddau Cymraeg ail iaith yn Ysgol Aberdâr er mwyn hybu'r Gymraeg. Edrychwn ymlaen at ddychwelyd ym mis Mawrth i gynnal rhagor o weithgareddau. Mae disgyblion yr Ysgol Isaf hefyd wedi bod yn ysgrifennu llythyron at ddisgyblion Ysgol Aberdâr er mwyn cyfarfod â ffrindiau newydd a hybu'r Gymraeg.




## Gweithdy Samba

Ar ddydd Gwener Tachwedd 19eg, cynhaliwyd gweithdy Samba i ddisgyblion Blwyddyn 9 gan Mr Mark Galozzi-Hibbert. Roedd y disgyblion wedi mwynhau dysgu am y gerddoriaeth fel rhan o'u thema Cerddoriaeth y Byd.



## Gŵyl y Gelli




Roedd y daith i Ŵyl y Gelli yn un hwyl iawn oherwydd cefais i'r cyfle i brynu llyfrau a gwrando ar awduron gwahanol. Gwelon ni Karl Nova ac roedd yn ysbrydoliaeth fawr yn clywed sut gwnaeth e greu'r llyfr. Hefyd cawson ni ei lofnod. Roedd yn ddiwrnod hyfryd. Diolch yn fawr i'r Adran Saesneg am drefnu. Gan Annie Chalk, Blwyddyn 9.



## Cystadleuaeth y Siarter Iaith

Mae cystadleuaeth siarad Cymraeg i'r busnesau lleol wedi'i lansio ym Mhentre'r Eglwys a Thonteg. Felly, defnyddiwch eich Cymraeg gyda'r siopau o gwmpas yr ysgol!





## Diwrnod Pontio Blwyddyn 6 - Celfyddydau'r Garth





Bu blwyddyn 6 o'n hysgolion partner yn rhan o ddiwrnod pontio ar ddydd Iau 2ail o Ragfyr. Cafodd ddisgyblion Blwyddyn 6 y cyfle i fod gyda'r athrawon Celfyddydau Mynegiannol a chael blas o'r Adrannau Celf, Cerddoriaeth, Drama a Dylunio a Thechnoleg. Bu'r disgyblion yn brysur iawn yn cynhyrchu hetiau Nadolig o fewn gwers blasu tecstilau. Llwyddodd rai i gynhyrchu argraffiadau gan greu cardiau Nadolig yn y wers gelf ac arbrofwyd gyda thechnegau rhythm o fewn cerddoriaeth. Yn y wers ddrama cafwyd profiad o berfformio o dan y golau! Mi oedd y dydd yn un llwyddiannus a dangosodd y disgyblion falchder ac roeddent yn agored i'r her. Da iawn chi! Fel athrawon Celfyddydau'r Garth rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu nôl rhywbryd eto!



## Gweithdy Haf Weighton



Fel disgybl sy'n astudio dau o'r cyrsiau o dan yr ymbarél Celf a Dylunio, sef Celf a Ffotograffiaeth, cafwyd y cyfle i fod yn rhan o weithdy gan yr artist Haf Weighton. Mae Haf Weighton yn adnabyddus am ei gwaith aml gyfrwng tecstilau, mae wedi cael sawl arddangosfa ar hyd ei gyrfa, rhai o fewn yr ardal leol ond hefyd rhai yn Llundain a hyd yn oed Rhufain. Mwynheais Haf yn rhannu gyda ni ei thechnegau i gynhyrchu haenau wrth weithio gyda delweddau ar ffabrig. Wrth i ni arbrofi gyda'r technegau a phrosesau llwyddon i gynhyrchu cerdyn post ar ddarn o ddefnydd, esboniodd Haf ein bod yn rhan o brosiect gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Y Bathdy Brenhinol a Choleg y Cymoedd. Ein bwriad yw gweithio ar y cyd i gynhyrchu arddangosfa sy'n hybu'r Iaith Gymraeg mewn modd gweledol a chreadigol. Felly edrychwn ymlaen at wahodd Haf mewn unwaith eto ym mis Ionawr i barhau'r gwaith ar gyfer cynhyrchu ein darnau ar gyfer yr arddangosfa. Gan Seren Chicken, Bl12.



## Mis Pobl Dduon





Yn ystod mis Tachwedd cafwyd cyfle i ddathlu mis pobl dduon gan roi'r ffocws ar gyfraniad nifer o bobl dduon ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Rhoddodd gerflun Betty Campbell sbardun i drafodaethau boreol yng nghofrestru am newidiadau i'r cwricwlwm, pwysigrwydd y mis ei hun a phwysigrwydd i drafod a chodi ymwybyddiaeth am gyfraniadau nifer o bobl dduon sydd wedi, yn hanesyddol, eu cuddio o hanes. Rhoddodd ffocws i brosiect Cwest misol yn yr adran Ddyniaethau a ffocws i'r clwb Dyniaethau hefyd a chafodd pob blwyddyn y profiad arbennig o wrando ar Marcelle Dos Santos yn sôn am ei phrofiadau hi gyda disgyblion a phwyllgor Cydraddoldeb yr ysgol. Rhoddodd y mis ffocws i drafodaethau a fydd yn parhau o fewn gwersi Moeseg a Dyniaethau gan sicrhau nad yw'r drafodaeth yn dod i ben.


## Taith Blwyddyn 7 i Theatr y Sherman



Teithiodd 60 disgybl o Flwyddyn 7 i weld cynhyrchiad A Christmas Carol yn Theatr y Sherman ar y 9fed o Ragfyr. Roedd e'n brofiad llawn hwyl ac yn ffordd wych o atgyfnerthu dealltwriaeth y disgyblion o gymeriad Scrooge yn dilyn eu gwaith ar Charles Dickens gyda'r adran Saesneg. Roedd y set yn safonol iawn a'r actio yn wych. Cafodd Scrooge ei chwarae gan fenyw gan arwain at drafodaethau dwys am ystrydebau wrth gymeriadu. Roedd y Ghost of Christmas Present yn ddoniol iawn ac yn annog y gynulleidfa i ddawnsio a chanu! Canwyd yn y Gymraeg ac yn Saesneg ac roedd e'n braf gweld traddodiadau Cymreig o Oes Fictoria fel y Fari Lwyd ar y llwyfan hefyd. Am daith wych! Roedd e'n hyfryd i fod nôl yn y theatr!

| Dyddiadau Hanner Tymor | Dechrau | Diwedd |
|---|---|---|
| 3 (Gwanwyn 2022) | **06/01/2022** | 18/02/2022 |
| 4 (Gwanwyn 2022) | 28/02/2022 | 08/04/2022 |
| 5 (Haf 2022) | 25/04/2022 | 27/05/2022 |
| 6 (Haf 2022) | 06/06/2022 | 22/07/2022 |





## Prosiect Dosbarth Meistr Lefel A Hanes gyda Phrifysgol Caerdydd

Cafon ni fel astudwyr Hanes lefel A, y cyfle i fynd ar daith i Aberystwyth ac ymweld â Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yn ystod y dydd, cafon ni'r fraint o gwrdd â Dr Marion Loeffler, darllenydd hanes Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd. Prif ffocws ein profiad oedd Terfysg Merthyr Tudful yn 1800au. Dysgon ni am y digwyddiad a'r effaith a gafodd ar bobl yn y cyfnod. Yn sicr roedd hyn o ddiddordeb i ni, ac roedd yn ddiddorol iawn i fi fel aelod o flwyddyn tair ar ddeg gan roedd y gwaith yn berthnasol i'n hastudiaethau ar y Chwyldro Ffrengig blwyddyn yma. Roedd cael y cyfle i weld y cysylltiadau rhwng ein hastudiaethau yn yr ysgol a digwyddiadau fel terfysg Merthyr Tudful yn gyfle anhygoel! Yn ogystal â hyn, cafon ni'r cyfle i gydweithio gyda'n gilydd ac i weithio yn unigol er mwyn anodi ffynonellau o'r cyfnod. Roedd hyn yn berthnasol ac o fudd i ni gyd, a rhoddodd gyfle arbennig i ni ddefnyddio ein sgiliau o astudio Hanes lefel A mewn cyd-destun gwahanol. Yn sicr, roedd y profiad yma yn un fydd o gymorth mewn amrywiaeth o ffyrdd megis gweithio gyda ffynonellau yn y dyfodol ac i fedru addasu fy sgiliau er mwyn cael defnydd ohonyn nhw yn y Brifysgol. Roedd y dydd yn bennaf yn un addysgiadol, ond cafon ni'r cyfle i ymweld â'r dref a mwynhau amser rhydd gyda ffrindiau hefyd! Credaf roedd y profiad yma yn un buddiol iawn ac rydw i'n gwerthfawrogi'r ymdrech aeth mewn i gynllunio'r diwrnod. Gan Ella Minas, Bl 13.









## Senedd Ieuenctid Cymru




Helo, fy enw i yw Ffion Fairclough, rwy'n 16 ac rwyf wedi cael fy newis i gynrychioli Pontypridd yn y Senedd Ieuenctid. Mae'r ardal hon yn golygu llawer iawn i mi, ond rwy'n credu ein bod ni, pobl ifanc Pontypridd yn haeddu gwell. Yn yr ardal hon, mae dros chwarter y plant a'r bobl ifanc yn byw mewn tlodi. Mae'r nifer o bobl sy'n dioddef gydag iechyd gwael yn uwch na gweddill Cymru ar gyfartaledd, ac mae yna nifer fwy yn gadael ysgol heb unrhyw gymwysterau. Ond eto, does yna ddim byd yn ein DNA sy'n dweud bod yn rhaid i ni fod yn dlotach, yn fwy sâl, neu y dylen ni gael llai o gyfleoedd nag unrhyw un arall. Mae'r ardal hon yn le gwych i fyw, ond mae angen mwy o gefnogaeth arni er mwyn rhoi dyfodol gwell i bobl ifanc. Rwy'n edrych ymlaen at gymryd y rôl yma i drafod a thrio datrys rhai o'r problemau sy'n cael ei wynebu yma megis lleihau costau trafnidiaeth gyhoeddus fel nad oes angen talu £7.70 i fynd ar drên i Gaerdydd ac yn ôl. Maen nhw'n sôn am daclo newid hinsawdd trwy annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, ond pam fydd pobl yn gwneud hynny gyda swm mor fawr i'w dalu? Mi fyddaf hefyd yn ffocysu ar gefnogi pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol a rhoi gwell cyfleoedd a chyfleoedd cyfartal i bawb sy'n byw yn y Cymoedd.


| Dyddiadau Diwrnodau HMS |
|---|
| Dydd Iau 23ain Mehefin 2022 |
| Dydd Gwener 24ain Mehefin 2022 |
| Dydd Gwener 22ain Gorffennaf 2022 |

## Gweithdy Creu Murlun

Diolch yn fawr i Siôn Owen am ddod i’r ysgol i gynnal gweithdy gyda chriw o ddisgyblion Blwyddyn 11. Roedd rhai o’r disgyblion yn gweithio ar gerdd ar gyfer y murlun a chriw arall yn brysur yn dylunio. Mae’r gwaith terfynol yn edrych yn wych ac edrychwn ymlaen at weld y murlun ar wal yr adran Gymraeg.







## Ymweliadau Daearyddiaeth



Ym mis Hydref aeth disgyblion Blwyddyn 13 sy'n astudio Daearyddiaeth ar sawl ymweliad gwaith maes ar gyfer eu hymchwiliadau unigol. Roedd pob disgybl wedi dewis thema wahanol ac felly aethom ni i dwyni tywod Merthyr Mawr a thraeth Southerndown ar ein diwrnod cyntaf. Roedd y tywydd yn braf iawn y ddau ddiwrnod er bach yn wyntog. Gwnaeth pawb fwynhau rhedeg i lawr y 'Big dipper' a hefyd roedd ambell ddisgybl wedi cael eu traed yn wlyb ar ein hymweliad i Southerdown! Ar ein hail ddiwrnod gwnaethon waith coetir yn goedwig Ty'n y Coed ble aethom ni ar goll ar ein ffordd nôl trwy'r goedwig! Llwyddom i gyrraedd Cathays i holi myfyrwyr yn y prynhawn a hefyd Bae Caerdydd er mwyn edrych mewn i amddifadedd. Dau ddiwrnod buddiol iawn i'r disgyblion sydd nawr wrthi yn ysgrifennu eu hymchwiliadau unigol.



**Dilynwch ni ar Twitter:**
**@garth_olwg | @TE_Prifathro | @OlwgPontio @GarthOlwg_Canol | @GarthOlwg_Hyn | @GarthOlwg_Isaf | @ADYGarthOlwg | @AddGorffGO | @mathgarth | @AdranHanesGO | @SaesnegGO @OlwgPontio @adranYGymraegGO | @DaearGO | @DramaOlwg | @CelfyddydauGO | @IRhGarth |@GwyddGarth**

## Llwyddiannau Chwaraeon



Llongyfarchiadau i ferched Blwyddyn 7 ac 8 am ddod yn ail yng nghystadleuaeth plât pêl-rwyd yr Urdd gan golli 5-6 i Glantaf yn y rownd derfynol!



Llongyfarchiadau enfawr i Kara Bennett, Blwyddyn 10 ar ennill ras teulu Casnewydd.

Llongyfarchiadau i'r criw o fechgyn o Flwyddyn 10 ac 11 sydd yn rhan o'r tîm oedd yn rownd derfynol rhanbarth y Gleision yn gynharach yn y mis.





Mae Megan Bowen wedi cael ei dewis fel capten dros dro i dîm menywod Barri FC yn ddiweddar. Arweiniodd Megan y tîm i fuddugoliaeth yn erbyn Pontypridd ar gyfer y gêm olaf adref y tymor gyda sgôr o 3-0!



Enillodd Abigail Protheroe a Lily Prygodzicz bencampwriaeth Brydeinig am yr ail dro, yn ogystal â Phencampwriaeth Ewropeaidd ar ddiwedd mis Tachwedd fel rhan o dîm ffurfiant 8 pâr a 4 pâr yng nghystadlaethau Blackpool a Stoke. Perfformiwyd dawns America Lladin eto flwyddyn yma i gipio'r goron am yr ail dro!



Llongyfarchiadau i Kacey Peck a Ruby Neale am eu llwyddiannau dawnsio diweddaraf. Daeth Kacey yn gyntaf yng nghystadleuaeth Ewrop gyda'r ddawns Adam a Eve a daeth y ddwy yn ail o Dan 14 gyda'r ddawns Be Kind. Roedd y tîm hefyd wedi ennill y Bencampwriaeth Brydeinig gyda'r ddawns Adam a Eve a thrydydd yn y Bencampwriaeth Brydeinig gyda'r ddawns Be Kind.



Llongyfarchiadau i griw o fechgyn Blwyddyn 9 am ennill eu capiau rygbi dros Rondda Cynon Taf.

**Nadolig Llawen a Blwyddyn newydd dda!**